**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-865
Ein cyf/Our ref KW/07552/19

Janet Finch-Saunders AC

Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd yn gofyn a oes unrhyw gynlluniau cyfredol gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau statudol ar *Fwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir* [1] ynglŷn â bwydlenni sy'n briodol ar gyfer diet fegan.

Mae'r canllawiau presennol eisoes yn rhoi cyngor ymarferol ar y fath o fwyd y dylai plant eu bwyta er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o brotein a chalsiwm. Mae hefyd yn cynnwys nifer o opsiynau naturiol fegan y gall ysgolion eu cynnwys ar eu bwydlenni brecwast a chinio fel grawnfwydydd, ffa, llysiau, ffrwythau a bara ac mae'n argymell bod protein planhigion yn cael ei gynnwys ar fwydlen yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu rheoliadau bwyta'n iach mewn ysgolion (gofynion a safonau maeth) (Cymru) 2013[2] yng ngolwg newidiadau i'r argymhellion maeth ers iddynt gael eu cyflwyno chwe mlynedd yn ôl. Byddwn yn ystyried yr ymchwil a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch safonau maeth wrth ymgymryd â'r dasg hon, gan gynnwys a oes angen darparu canllawiau ychwanegol ar gyfer deietau fegan.

---

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/healthy-eating-in-maintained-schools-statutory-guidance-for-local-authorities-and-governing-bodies.pdf

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1984/made

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion iechyd yn Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a rheolwyr arlwyo ysgolion i sicrhau bod y bwyd a'r ddiod a ddarperir yn ein hysgolion yn gwneud cyfraniad iach pwysig at ddeiet ein plant a'n pobl ifanc.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Minister for addysg
Gweinidog dros Addysg